Metropolis 1916-17 gan George Grosz (1893 – 1959)

Dyma lun llawn swn a chynnwrf. Pobl driphlith draphlith yn mynd a dod - prysurdeb. Mae'r llun yn fwrlwm o brysurdeb y ddinas fawr – y Metropolis – yn fawr ei pherygl, mawr ei hapêl. A'i dyna'r cyfan mae Grosz yn ceisio cyfleu? Na, wrth edrych yn ofalus, fe welwn nid swn, ond sgrech; nid cynnwrf ond sgarmes, nid bwrlwm ond berw gwyllt. Nid pobl sydd yn y llun, ond creaduriaid hyll esgyrnog, anifeilaidd, os nad dieflig wir. Mae'r goleuadau coch sydd mor amlwg yn y llun yn mynnu'n sylw – nid llachar mohonynt rywsut ond bygythiol, gwyllt. Cawn gan Grosz gyda'r llun hwn blas o uffern ar y ddaear. Dyma apêl y llun yn rhyfedd iawn. Mae anobaith, hunan-dwyll, hagrwch a bryntni bywyd yn diferu o'r cynfas.

Fe wyddom fod i'r weithred o droi oddi wrth Dduw ei oblygiadau. Wrth droi oddi wrth Dduw, fe dry bywyd yn hyll - fe wreiddia hagrwch ynom, cydia anobaith ynom. Yn llyfr Deuteronomium mae Duw yn cynnig dewis i'w bobl: dewis rhwng bywyd a marwolaeth; fe â ymlaen i'w hannog i ddewis bywyd (30: 15-20). Mynnu peidio dewis bywyd fu hanes pobl ers y dechrau'n deg. Dyna fu ein hanes ni gyd ar dro - ac wrth fynnu mynd ein ffordd ein hunain, fe dry bywyd yn hunllef. Dyna gymwynas Grosz i ni. Na, nid dyma'r fath o lun y buasai'r un ohonom yn dymuno gosod uwchben y lle tan, mae'n demtasiwn i'w osod yn y tan, ond gwna hynny ddim mo'r tro. Dengys y llun hwn, beth ddaw o bobl wedi iddynt droi oddi wrth Dduw.

The Prophet Jeremiah Mourning over the Destruction of Jerusalem (1630) gan Rembrandt (1606-1669)

Mae tywyllwch a goleuni yn hanfodol i luniau Rembrandt bob un. Mae'r truan hwn wedi ei lethu. Pwy ydyw? Jeremeia - a'i galon yn deilchion wrth i Jerwsalem losgi yn y cefndir. Onid naturiol felly, buasai i Rembrandt fod wedi lapio'r cysgodion yn dynn am Jeremeia? Yn hytrach, mae gwawl o oleuni o'i gwmpas yn bygwth a goresgyn y tywyllwch sydd o gwmpas y Proffwyd. Dyma, yw neges y llun, dyma apêl y llun. I Rembrandt, y goleuni disgleiriaf o bob goleuni yw goleuni Duw. Mae goleuni Duw yn ddisgleiriach na golau'r tan sydd yn ysu Jerwsalem yn ulw.

Mae'r llun hwn yn ein hatgoffa ein bod ni gyda geni Iesu, ein Harglwydd, wedi gweld goleuni mawr, cawsom lewyrch golau (Eseia 9: 2). Nid yw'r holl dywyllwch a fu, sydd, neu a fydd yn ddigon i ddiffodd goleuni cariad Duw. Y goleuni hwn yw ein gobaith, eich cysur, a'n cymorth i fyw. Plant y goleuni hwn ydym un ac oll. Ac er waetha'r tywyllwch sydd gymaint rhan o fywyd, sydd gymaint rhan o'n bywyd ninnau bob un, mae goleuni bendithlawn Duw yn wawl o'n cwmpas i'n cynnal a'n cadw bob un.